

Adolygiad o drefniadau rheoli risg corfforaethol Cyngor Sir Powys

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5082A2025

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Cipolwg ar yr archwiliad	4
Adroddiad manwl – ein canfyddiadau	6
Nodi risgiau	6
Rheoli risgiau	7
Monitro risgiau ac adrodd arnytn	9
Adolygu ei drefniadau	10
Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor	10
Atodiadau	
Atodiad 1 – Cwmpas a dulliau	12
Atodiad 2 – Cwestiynau a meini prawf archwilio	13

Adroddiad cryno

Cipolwg ar yr archwiliad

Yr hyn y gwnaethom edrych arno

Rheoli risg ar gyfer llywodraeth leol yw'r broses o nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion strategol cyngorau¹. Yn yr adolygiad hwn, ystyriwyd a yw trefniadau rheoli risg corfforaethol Cyngor Sir Powys yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys nodi, rheoli, monitro ac adrodd ar risg. Ni wnaethom edrych ar reoli risg ar lefel adrannol na phrosiect.

Pam mae hyn yn bwysig

Mae rheoli risg effeithiol mewn llywodraeth leol yn bwysig gan y gall helpu i wella cynllunio strategol a blaenoriaethu, sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau, a bod cyngorau yn gallu cyflawni eu hamcanion strategol. Heb drefniadau rheoli risg effeithiol, gallai cyngor golli cyfleoedd i wella canlyniadau i'w drigolion. Dylai rheoli risg effeithiol helpu cyngorau i ymateb mewn ffordd ystwyth i'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae rheoli risg yn 'rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ac yn rhan sylfaenol o'r trefniadau i alluogi sefydliad i gael ei gyfeirio, ei reoli'n dda ac yn briodol ar bob lefel.'²

Yr hyn a ganfuom

Yn 2023, gwnaeth y Cyngor welliannau i'w fframwaith rheoli risg. Mae uwch-arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol ynghylch rheoli risg. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau rheolaidd ynghylch risgiau mewn cyfarfodydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) a pherfformiad gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) wedi cynyddu ei bwyslais ar effeithiolrwydd rheoli risg yn y Cyngor ac yn cynnal rhaglen dreigl o adolygiadau 'archwiliad dwfn'. Rydym wedi nodi rhai meysydd i'w gwella i gefnogi'r Cyngor i ddangos ymhellach y cydweddu rhwng rheoli risg a chyflawni ei amcanion strategol. Mae'r rhain yn cynnwys, dangos cydweddu cyson rhwng risgiau â'r tri amcan strategol – Cryfach, Tecach, Gwyrddach – sydd wedi'u cynnwys yn ei Gynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol 2023-2027. Yn gadarnhaol, mae'r Cyngor wedi diffinio ei lefelau parodrwydd i dderbyn a goddef risg, a gall ddatblygu hyn trwy gyfathrebu'n glir ble a pham mae rhai risgiau y tu allan i'w sgoriau targed. Bydd hyn hefyd yn helpu'r Cyngor i nodi effaith camau rheolaeth ar ei risgiau sydd wedi'u nodi.

¹ O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gynghorau yng Nghymru osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynghorau mae'r rhain bellach yn cael eu mabwysiadu fel amcanion strategol y sefydliad.

² Llywodraeth y DU (2023) [Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau](#)

Yr hyn rydym yn ei argymhell

Gwnaethom bedwar argymhelliad gyda'r nod o wella trefniadau rheoli risg y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys nodi, rheoli, monitro ac adrodd ar risg, yn ogystal â gwerthusiad y Cyngor o'i drefniadau.

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei ddull gweithredu rheoli risg ond nid yw'n dangos yn gyson sut mae ei ddull gweithredu'n ei helpu i reoli ei risgiau strategol

Nodi risgiau

Nodi risgiau yw'r broses o gydnabod a dogfennu risgiau posibl a allai effeithio ar gyflawni amcanion y Cyngor.

- 1 Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli risg cyfredol.** Mae ei bolisi a'i ganllawiau rheoli risg yn nodi'n glir y trefniadau llywodraethu perthnasol, gan gynnwys gofynion adrodd, rolau a chyfrifoldebau. Fodd bynnag, er gwaethaf tynnu sylw at bwysigrwydd cydweddu rheoli risg â chyflawni ei amcanion strategol, nid yw'r Cyngor yn dangos hyn yn glir. Mae dangos sut mae rheoli risg yn cydweddu ag amcanion strategol yn bwysig er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon wrth liniaru bygythiadau posibl a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.
- 2 Nid yw dull gweithredu'r Cyngor o sganio'r gorwel wedi'i ddatblygu'n llawn.** Fel rhan o gynllunio busnes, mae'r Cyngor yn gofyn am wasanaethau i asesu risgiau a chyfleoedd newydd a'r rhai sy'n datblygu. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol (CLT) hefyd yn ystyried sganio'r gorwel fel eitem agenda sefydlog. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r gweithgareddau hyn yn helpu'r Cyngor i ystyried senarios sy'n cyflwyno risgiau a chyfleoedd sy'n datblygu. Mae hyn yn bwysig i helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau strategol gydag effeithiau tymor byr a thymor hir mewn golwg.
- 3 Nid yw disgrifiadau o risg yn nodi'n gyson yr effaith bosibl ar amcanion strategol y Cyngor.** Mae perchnogion risg yn disgrifio'r risg a'r canlyniadau posibl pe bai'r risg yn digwydd. Fodd bynnag, effeithiau sy'n seiliedig ar wasanaethau yn bennaf yw'r canlyniadau hynny ac nid ydynt bob amser yn ymwneud â'r effaith ar amcanion strategol y Cyngor. Mae diffinio risgiau'n glir o safbwynt eu heffaith bosibl ar amcanion strategol yn bwysig, er mwyn creu dealltwriaeth ar y cyd o'r achos sylfaenol ac i gefnogi nodi camau rheoli neu liniaru priodol.
- 4 Mae gan y Cyngor ddull gweithredu clir o wahaniaethu rhwng risgiau a materion³.** Er nad yw'n cynnwys risgiau a materion yn ei gofrestr risg strategol, mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn cadw cofnod o faterion ar wahân y

³ Mae risg yn ddigwyddiad posibl yn y dyfodol. Mae'n rhywbeth a allai ddigwydd, ond nid yw wedi digwydd eto. Mae mater yn broblem sydd eisoes wedi digwydd neu sy'n digwydd ar hyn o bryd.

mae'n ei adolygu'n rheolaidd. Yn unol â'i bolisi, nid yw Aelodau yn cael y cofnod hwn. Fodd bynnag, mae Aelodau'n cael adroddiadau penodol ar reoli materion sylweddol, er enghraifft, y rhai a allai fod angen cyllid ychwanegol arnynt. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau goruchwyliaeth o'r rheolaethau i atal neu leihau'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd, neu liniariadau i leihau effaith mater ar ôl iddo ddigwydd eisoes.

- 5 **Mae nifer y swyddogion sydd wedi cael hyfforddiant rheoli risg yn isel.** Mae aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) wedi cael hyfforddiant ar eu rôl sicrwydd o fewn y fframwaith rheoli risg. Fodd bynnag, ers ail-lansio ei hyfforddiant rheoli risg yng nghanol 2024, ychydig iawn o swyddogion sydd wedi mynychu. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo fwy i'w wneud i nodi rolau allweddol ac i uwchsgilio swyddogion trwy hyfforddiant wedi'i dargedu. Mae hyfforddiant effeithiol yn bwysig i sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau rheoli risg.
- 6 **Mae uwch-arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o amgylch rheoli risg.** Mae uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet yn ategu pwysigrwydd rheoli risg fel rhan o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn trafod y gofrestr risg strategol yn rheolaidd ac mae aelodau'r Cabinet hefyd yn mynychu cyfarfodydd perfformiad gwasanaeth chwarterol lle mae risgiau lefel gwasanaeth yn cael eu trafod. Mae'r diwylliant hwn yn bwysig o ran hyrwyddo dull gweithredu rhagweithiol o nodi a rheoli risg.

Rheoli risgiau

Mae rheoli risgiau yn golygu asesu ac ymdrin â risgiau a materion posibl a allai effeithio ar amcanion y Cyngor. Mae'n cynnwys gwerthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl y risgiau a'r materion a datblygu a gweithredu rheolaethau effeithiol a chatau lliniaru.

- 7 **Mae gan y Cyngor ddull gweithredu cyson at asesu effeithiau ei risgiau strategol.** Mae perchnogion risg yn asesu risgiau gan ddefnyddio matrices o debygolrwydd ac effaith, gwybodaeth broffesiynol ac unrhyw ddata gwasanaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, fe wnaethom ond gweld tystiolaeth gyfyngedig bod y Cyngor yn defnyddio data yn systematig i gynorthwyo gydag asesu risgiau. Byddai asesiad mwy trylwyr o effeithiau posibl risgiau yn galluogi'r Cyngor i ddeall difrifoldeb a thebygolrwydd posibl risgiau'n well, gan ei alluogi i flaenoriaethu camau gweithredu a dyrannu adnoddau'n well.
- 8 **Mae gan y Cyngor feini prawf clir ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio risg.** Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn defnyddio tri maen prawf i uwchgyfeirio risgiau i'r gofrestr risgiau strategol: difrifoldeb (sgôr yn uwch na 15), effaith ac arwyddocâd. Gall Uwch Dîm Arweinyddiaeth isgyfeirio risgiau lle mae'n ystyried bod rheolaethau yn effeithiol, difrifoldeb risg wedi'i leihau, neu fod risg yn cael ei

ddatrys. Mae meini prawf a rhesymeg glir ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau yn helpu i gefnogi trefniadau mwy effeithlon ac effeithiol.

- 9 **Mae'r Cyngor wedi datblygu ei barodrwydd i dderbyn risg⁴ ond nid yw'n gwneud defnydd llawn o'r dull gweithredu hwn.** Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi datganiad parodrwydd i dderbyn risg, nid yw ei adroddiad cofrestr risgiau strategol yn cynnwys y categori parodrwydd i dderbyn risg perthnasol, lefelau goddefgarwch, na sgoriau risgiau targed. Bydd mynegiant o barodrwydd i dderbyn a goddef risg sy'n cael ei ddeall ledled y Cyngor yn gosod paramedrau i unigolion weithredu ynddynt ac yn galluogi cymryd risg sy'n cefnogi cyflawni amcanion strategol. Yn yr un modd, ni ellir rheoli rhai risgiau yn llawn oherwydd eu natur a bydd angen eu goddef. Ar ddiwedd 2024, roedd y rhan fwyaf o'r pymtheg risg strategol ar ei gofrestr yn uwch na'r parodrwydd i dderbyn risg y cytunodd y Cyngor arno. Fodd bynnag, oherwydd nad oedd y Cyngor wedi cyfathrebu'n glir ei barodrwydd i dderbyn risg a'i lefelau goddefgarwch, nid oedd y rhesymeg dros gario'r risgiau hyn yn glir. Mae cyfathrebu ei barodrwydd i dderbyn a goddef risg yn glir yn bwysig i gefnogi dull gweithredu rheoli risg aeddfed.
- 10 **Nid yw'r Cyngor yn dangos yn glir ei ystyriaeth o wybodaeth risg gan sefydliadau partner.** Mae risgiau yn aml yn cael effeithiau trawsbynciol sy'n ymestyn ar draws ffiniau sefydliadol. Mae trefniadau'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ardaloedd gwasanaeth gofnodi risgiau o bartneriaethau sy'n ymwneud â'r Cyngor. Mae uwch-arweinwyr hefyd yn ystyried effaith risgiau sefydliadau partner. Fodd bynnag, nid yw risgiau strategol y Cyngor bob amser yn dangos effaith partneriaid ar risgiau'r Cyngor. Gall deall sut y gallai penderfyniadau partneriaid allweddol effeithio ar y Cyngor alluogi rheoli effaith y risgiau hynny'n well.
- 11 **Nid yw'r Cyngor yn dangos yn glir ei ddull gweithredu o ran risgiau trawsbynciol.** Mae gan bob risg ar y gofrestr risgiau strategol un perchennog risg sy'n darparu perchnogaeth glir o'r risgiau. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn trafod cyfraniad yr holl feysydd gwasanaethau perthnasol at risgiau trawsbynciol ond nid yw'r Cyngor yn dangos y cyfraniadau hynny'n glir, er enghraifft, yr argyfyngau natur a hinsawdd. Mae defnyddio dull gweithredu cyfannol o reoli risg yn helpu i nodi risgiau cydgysylltiedig, gwendidau posibl a chyfleoedd ar gyfer gwneud gwell benderfyniadau a phrosesau lliniaru risg.

⁴ Diffinnir parodrwydd i dderbyn risg fel y swm a'r math o risg y mae'r Cyngor yn barod i fynd ar ei drywydd, ei gadw neu'i gymryd. Lefelau goddefgarwch yw'r lefelau risg y mae'r gan y Cyngor nod o weithredu ynddynt.

Monitro risgiau ac adrodd arnynt

Mae monitro risg yn helpu i asesu effeithiolrwydd ymdrin â risg y Cyngor. Dylai monitro gefnogi'r ddealltwriaeth o ran a yw'r proffil risg yn newid, sut ac i ba raddau y mae rheolaethau mewnol yn gweithredu fel y bwriadwyd i roi sicrwydd dros reoli risgiau i lefel dderbyniol wrth gyflawni amcanion sefydliadol.⁵

Mae adrodd ar wybodaeth am risiau yn amserol, yn gywir ac yn berthnasol yn bwysig i wella ansawdd gwneud penderfyniadau effeithiol yn seiliedig ar risg ac i gefnogi'r gwaith o reoli a goruchwyllo trefniadau risg y Cyngor.

- 12 **Mae'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd ar reoli risg, ond nid yw camau gweithredu risg bob amser yn SMART⁶.** Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Mae'r Cyngor yn nodi rheolaethau neu gamau gweithredu yn ei gofrestr risg, fodd bynnag, nid yw'r rheini bob amser yn SMART nac yn cael eu costio. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu asesu effeithiolrwydd y camau gweithredu y mae'n eu cymryd, monitro cynnydd yn gywir, neu benderfynu sut orau i ddyrannu adnoddau.
- 13 **Nid yw'r Cyngor yn dangos effaith rheolaethau risg yn gyson.** Mae strategaeth y Cyngor yn cydnabod mai dim ond ychydig o risgiau a chamau rheoli sy'n parhau i fod yn statig. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol yn cael y gofrestr risg strategol yn rheolaidd ac yn adolygu'r sgoriau risg, datganiadau cynnydd a'r rheolaethau a'r camau gweithredu. Bwriad y datganiadau cynnydd yw rhoi sicrwydd bod camau lliniaru yn cael eu gweithredu a'u monitro. Fodd bynnag, nid yw'r datganiadau hynny'n cydweddu'n gyson â'r rheolaethau a'r camau gweithredu. Mae llawer o reolaethau neu gamau gweithredu wedi nodi eu bod wedi'u cwblhau, ac nid yw'n glir pam mae'r rheini'n parhau ar y gofrestr. Felly, mae'r gofrestr yn crynhoi gweithgarwch yn hytrach na darparu tystiolaeth o effaith rheolaethau risg. Mae adrodd ar a monitro effeithiolrwydd rheolaethau yn rheolaidd yn helpu i gyfrannu at liniaru risg a nodi lle y gallai fod angen rheolaethau ychwanegol.
- 14 **Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynyddu ei bwyslais ar effeithiolrwydd rheoli risg.** Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yn ymgymryd â rhaglen dreigl o adolygiadau archwiliad dwfn o'r holl risgiau strategol. Fodd bynnag, nid yw ei gylch gwaith ar gyfer yr adolygiadau hynny wedi'i ddiweddarau i ystyried nifer o newidiadau gan gynnwys parodrwydd i dderbyn risg a lefelau goddefgarwch. Heb gylch gwaith clir, gallai effaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei gyfyngu wrth ymgymryd ag archwiliadau dwfn.

⁵ Llywodraeth y DU (2023) [Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau](#)

⁶ Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol.

- 15 **Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adrodd ar berfformiad a risg ar wahân.** Mae'r Cabinet yn cael adroddiadau perfformiad, monitro cyllideb a risg ar wahân bob chwarter. Nid yw'r adroddiad perfformiad yn cyfeirio at risgiau strategol perthnasol. Mae hyn yn golygu nad yw'r cysylltiadau rhwng risg, perfformiad a chyllideb bob amser yn glir ym mhob achos.

Adolygu ei drefniadau

Mae adolygu trefniadau yn cynnwys gwerthuso trefniadau rheoli risg y Cyngor yn systematig i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion, darparu gwerth am arian a nodi meysydd i'w gwella.

Mae gwersi a ddysgwyd yn cyfeirio at y ddealltwriaeth a'r wybodaeth a enillwyd o ddefnyddio trefniadau rheoli risg y Cyngor a sicrhau bod y rhain yn cael eu dogfennu a'u hadolygu i ysgogi gwelliant.

- 16 **Mae'r Cyngor wedi adolygu ei bolisiau rheoli risg.** Ar ddechrau 2023, adolygodd y Cyngor ei bolisi a'i ganllawiau rheoli risg. Fodd bynnag, gan ei fod yn dal i weithredu'r newidiadau a gyflwynodd yn 2023, nid yw'r Cyngor eto wedi gwerthuso a yw ei drefniadau diwygiedig yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd. Mae rhoi system ar waith i werthuso ei ddull rheoli risg yn bwysig o ran deall sut mae'r trefniadau hynny'n helpu i roi gwerth am arian.
- 17 **Mae'r Cyngor wedi ymdrin â meysydd blaenorol i'w gwella yn ei drefniadau rheoli risg.** Mae'r Cyngor wedi ymdrin â'r holl feysydd i'w gwella a amlygwyd yn archwiliad mewnol 2023 ar reoli risg. Mae hyn yn bwysig i gefnogi'r Cyngor i wella ei fframwaith rheoli risg yn barhaus.

Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Argymhellion	
A1 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer nodi risgiau a chyfleoedd corfforaethol . Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor:	
1.1	nodi'n glir sut mae risgiau yn cydweddu â'i amcanion strategol (paragraff 1);
1.2	dangos sut mae sganio'r gorwel yn llywio nodi risgiau mwy tymor hir (paragraff 2);
1.3	adolygu'r niferoedd sy'n manteisio ar hyfforddiant ar gyfer swyddogion ac Aelodau sy'n ymwneud yn rheolaidd â rheoli ac adolygu risgiau (paragraff 5).

Argymhellion

A2 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yn nhrefniadau'r Cyngor **ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol**. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor:

- 2.1 nodi defnyddio ei barodrwydd i dderbyn a goddef risg yn ei gofrestr risg strategol (**paragraff 9**);
 - 2.2 nodi sut mae'r holl wasanaethau perthnasol yn cyfrannu at gamau rheoli ar gyfer trawsbynciol (**paragraff 11**).
-

A3 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yn nhrefniadau'r Cyngor **i fonitro ac adrodd ar risgiau**. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- 3.1 datblygu mesurau rheoli SMART cymesur ar gyfer pob risg yn y gofrestr risgiau strategol (**paragraff 12**); a
 - 3.2 asesu effeithiolrwydd ei gamau rheolaeth ac adrodd arnynt (**paragraff 13**).
-

A4 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella yng nghamau gweithredu'r Cyngor o ran **adolygu ei drefniadau** ar gyfer rheoli risg. Er mwyn ymdrin â hyn, dylai'r Cyngor werthuso ac adrodd ar a yw'r newidiadau a gafodd eu gwneud yn 2023 yn cyflawni'r manteision arfaethedig (**paragraff 16**).

Atodiad 1

Cwmpas a dulliau

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn oedd:

- helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Sail gyfreithiol

Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a gynhwysir yn Adran 17 2(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r pwerau a gynhwysir yn Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom ymgymryd â'r archwiliad

Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn rhwng mis Chwefror a mis Mai 2025, trwy:

- adolygu dogfennau perthnasol, er enghraifft, papurau strategaeth rheoli risg, canllawiau i Aelodau, a deunyddiau hyfforddi;
- arsylwi sampl o gyfarfodydd pwyllgorau llywodraethu ac archwilio; a
- cynnal cyfweiliadau â swyddogion allweddol a'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am reoli risg.

Mae ein canfyddiadau wedi'u cyfyngu i'n dadansoddiad o'r wybodaeth uchod.

Atodiad 2

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiwn cyffredinol: A oes gan y Cyngor drefniadau rheoli risg priodol sy'n cefnogi cyflawni ei amcanion strategol?

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
1. A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg clir wedi'i gefnogi gan ddiwylliant rheoli risg effeithiol?	1.1 A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg cynhwysfawr sy'n gydnaws â'i amcanion strategol?	• Mae fframwaith rheoli risg y Cyngor yn nodi: – Rolau a chyfrifoldebau – Gofynion adrodd a monitro – Trefniadau llywodraethu – Amserlen ar gyfer diweddariadau'r gofrestr risg – Proses uwchgyfeirio ac isgyfeiro risg; ac – Mae'n gyffredol (h.y. heb fod y tu hwnt i'w ddyddiad adolygu penodedig)
	1.2 A oes gan y Cyngor ddiwylliant rheoli risg effeithiol?	• Mae uwch-arweinwyr yn ysgogi canolbwyntio ar bwysigrwydd rheoli risg yn y Cyngor. • Mae'r Cyngor yn ystyried rheoli risg fel rhan annatod o sut mae'r Cyngor yn gweithredu. • Mae uwch-arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog deialog agored ynghylch risg. • Mae trefniadau llywodraethu a goruchwyllo'r Cyngor yn cynnwys rheoli risg.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
		- Mae aelodau a swyddogion wedi cael hyfforddiant rheoli risg sy'n berthnasol i'w rôl. - Mae gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth glir o'u rôl o fewn y fframwaith rheoli risg. - Mae diwylliant y Cyngor yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol.
	1.3 A yw'r Cyngor wedi diffinio ei barodrwydd i dderbyn risg a'i lefelau goddefgarwch yn glir?	- Mae'r Cyngor yn mynegi ei barodrwydd i dderbyn risg a'i lefelau goddefgarwch yn glir. - Mae parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn cyd-fynd â'i uchelgeisiau strategol. - Mae'r Cyngor yn seilio ei barodrwydd i dderbyn risg a'i lefelau goddefgarwch ar wybodaeth berthnasol a chywir. - Mae'r Cyngor yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg i adlewyrchu newidiadau perthnasol ac arwyddocaol i'r amgylchedd mewnol ac allanol.
	1.4 A yw'r Cyngor yn mabwysiadu dull gweithredu hirdymor at reoli risg?	- Mae'r Cyngor yn ymgymryd â sganio gorwel i nodi risgiau sy'n datblygu a bygythiadau yn y dyfodol yn ogystal â chyfleoedd. - Gall y Cyngor ddangos sut mae ei broses o sganio'r gorwel yn dylanwadu ar ei reolaeth o risg. - Mae'r Cyngor yn defnyddio dull gweithredu ataliol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol at risg.
2. A yw'r Cyngor yn nodi, rheoli, monitro a herio ei risgiau yn effeithiol?	2.1 A yw'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effeithiau risg yn drylwyr?	- Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i asesu a gwerthuso risg (dadansoddeg risg, deallusrwydd artiffisial, modelu risg, dadansoddi senarios a sensitifrwydd, a phrofi straen). - Mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth/data dibynadwy i asesu maint, tebygolrwydd ac effaith bosibl risgiau. - Mae risgiau yn adlewyrchu risgiau sylweddol i gyflawni'r amcanion llesiant a'r nodau strategol

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
	2.2 A oes gan y Cyngor ddull gweithredu cyfannol at reoli risg?	• Mae'r Cyngor yn mapio rhyng-ddibyniaethau a chysylltiadau ar gyfer risgiau trawsbynciol . • Mae'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effaith gyfanredol risg ledled y sefydliad. • Mae'r Cyngor yn nodi gwybodaeth am risg gan bartneriaid cyflenwi allweddol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill ac yn ystyried sut y gallai'r risgiau hyn effeithio ar gyflawni ei amcanion strategol ac amcanion ei bartneriaid. • Mae'r Cyngor yn asesu ystod o effeithiau a chanlyniadau ar gyfer risgiau o fewn a thu allan i reolaeth y Cyngor.
	2.3 A yw trefniadau'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod camau digonol yn cael eu cymryd i ymdrin â risgiau?	• Mae perchnogaeth ac atebolrwydd risgiau clir. • Mae ymatebion a gweithredoedd risg yn glir ac yn cyd-fynd â pharodrwydd y Cyngor i dderbyn a goddef risg ac yn cael eu costio. • Mae camau gweithredu risg yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. • Mae camau gweithredu lliniaru yn cael eu hasesu am eu heffeithiolrwydd wrth newid graddfeydd risg. • Mae meini prawf clir ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau a llwybr archwilio clir.
	2.4 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar reoli risg yn rheolaidd?	• Mae'r Cyngor yn defnyddio system sgorio/asesiadau ystyrllon i gefnogi monitro ac adrodd ar risgiau. • Mae cofrestrau risgiau'n gynhwysfawr ac yn gyfredol. • Gall y Cyngor fynegi'n glir pam mae risgiau ar y gofrestr neu os nad ydynt, mae hyn yn cael ei esbonio a'i ddogfennu'n glir. • Mae uwch-arweinwyr yn adolygu risgiau yn rheolaidd ac yn amserol • Mae aelodau etholedig yn cael adroddiadau risg mewn ffordd amserol, dryloyw a chywir.

Cwestiynau Lefel 2	Cwestiynau lefel 3	Meini prawf
3. A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg?		Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) yn goruchwyllo ac yn herio'r wybodaeth risg yn effeithiol.
	3.1 A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg yn rheolaidd?	- Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei drefniadau rheoli risg ac yn nodi bylchau a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys meincnodi yn erbyn arferion sefydliadau eraill. - Mae'r Cyngor yn ystyried gwerth am arian ei drefniadau rheoli risg.
	3.2 A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd i wella ei drefniadau rheoli risg yn rheolaidd?	Mae'r Cyngor yn nodi ac yn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da ynghylch rheoli risg ledled y Cyngor.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg. We welcome
correspondence in Welsh and English